

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

TH Beedle

MJ Kearn

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

Julie Ellams Swyddog Gwasanaethau Democraataidd - Pwyllgorau
Kirsty Evans Uwch Swyddog Trwyddedu
Andrea Lee Uwch Cyfreithiwr

19. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cadeirydd fuddiant personol yn Eitem 3 ar yr Agenda, gan ei fod yn adnabod Mark Holmes a Gavin Thomas, ond dim ond gan ei fod wedi delio â hwy o'r blaen, yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd Cymuned Llansanffraid ar Ogwr.

20. DEDDF TRWYDDEDU 2003: ADRAN 105 HYSBYSIAD DIGWYDDIAD DROS DRO MAES PARCIO CEFN K2 GYM, MAIN AVENUE, YSTAD DDIWYDIANNOL BRACLA, PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad, i ofyn i'r Is-bwyllgor ystyried Hysbysiad Gwrthwynebu a gyflwynwyd gan Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor, mewn perthynas â Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro a gyflwynwyd i'r awdurdod trwyddedu.

Cadarnhaodd, ar 13 Awst 2021, fod yr awdurdod trwyddedu wedi derbyn Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro gan Mark Holmes ("defnyddiwr y safle") mewn perthynas â Maes Parcio Cefn K2 Gymnasium, Main Avenue, Ystad Ddiwydiannol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr. Manylwyd ar gopi o'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro yn Atodiad A i'r adroddiad.

Nid yw'r safle'n cael budd o Drwydded Safle ac roedd y digwyddiad ar gyfer 'Roots Shack' a gynhelir ar 28 Awst 2021 rhwng 1200 a 2300 o oriau.

Uchafswm nifer y bobl ar unrhyw un adeg i fod yn bresennol yn y digwyddiad yw 250.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu y byddai'r digwyddiad yn cynnwys llwyfan, bar a bwyd stryd. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai'r trefnwyr, o ran cynnal y digwyddiad, yn sicrhau y glynir wrth holl ganllawiau Covid presennol y Llywodraeth.

Roedd copi o'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro wedi gwasanaethu ar Heddlu De Cymru ac Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor. Roedd Adran Iechyd yr Amgylchedd wedi cyflwyno Hysbysiad Gwrthwynebu mewn perthynas â'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro i'r awdurdod trwyddedu. Mae copi o'r Hysbysiad Gwrthwynebu hefyd wedi'i gyflwyno i ddefnyddiwr y safle ac roedd wedi'i atodi yn Atodiad B i'r adroddiad.

Mae'r awdurdod trwyddedu yn ymwybodol ei bod yn bosibl i ddefnyddiwr y safle ac Adran Iechyd yr Amgylchedd ymrwmo i gyfnod o drafod ynghylch y gwrthwynebiadau a godwyd a bod Adran 106 o'r Ddeddf yn galluogi addasu'r Hysbysiad Digwyddiad Dros

Dro gyda chytundeb pob parti. Cynghorir yr Aelodau bod yr amserlenni ar gyfer Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro yn gymharol fyr ac, ar yr adeg y cafodd yr adroddiad hwn ei anfon, nid oedd yr awdurdod trwyddedu wedi cael gwybod bod unrhyw barti wedi dod i gytundeb. Cadarnhawyd hyn yn y cyfarfod

Felly, roedd yr Hysbysiad Gwrthwynebu yn cael ei drin fel pe na bai wedi'i dynnu'n ôl.

Roedd adrannau 2 a 7 o Ganllawiau'r Swyddfa Gartref yn berthnasol i'r Hysbysiad hwn, yn ogystal ag Adran 13 o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Felly, cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu fod yn rhaid i'r gwrandawriad ystyried y pwyntiau a godwyd yn yr Hysbysiad Gwrthwynebu a gwneud penderfyniad ar yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro. Ar ôl ystyried yr Hysbysiad Gwrthwynebu, roedd gan yr Is-bwyllgor yr opsiynau a restrwyd ym mharagraff 4.7 o'r adroddiad.

Yna, gwahoddodd y Cadeirydd y Swyddog o Adran Iechyd yr Amgylchedd, y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR), i amlinellu'r rhesymau dros yr Hysbysiad Gwrthwynebu mewn perthynas â'r cais am yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.

Esboniodd fod yr ymgeisydd wedi cael tri digwyddiad yn olynol ar gyfer penwythnosau 31 Gorffennaf, 7 a 14 Awst 2021, ac ar ôl hynny roedd Adran Iechyd yr Amgylchedd wedi derbyn cyfanswm o bum cwyn ar wahân. Derbyniwyd cwynion ar ôl y digwyddiad cyntaf, ond roedd yr ail Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro eisoes wedi cael sêl bendith gan fod yr ymgeisydd wedi'i gyflwyno cyn i'r digwyddiad cyntaf gael ei gynnal. Cysylltodd Swyddog o GRhR â'r ymgeisydd ar ôl y digwyddiad cyntaf i ddweud bod yr Adran wedi derbyn cwynion am sŵn bas ac y byddai'n cael ei argymhell bod yr ail ddigwyddiad yn gorffen erbyn 11.00pm, oherwydd hyn. Dywedodd wrth y Swyddog mai cerddoriaeth fyw oedd y digwyddiad cyntaf ac y byddai'r ail ddigwyddiad yn gerddoriaeth wedi'i recordio gan DJ, felly byddai'r olaf yn llai o broblem. Cytunodd yr ymgeisydd i fonitro'r lefelau sŵn mewn eiddo preswyl. Fodd bynnag, derbyniwyd cwynion pellach hefyd ar ôl yr ail ddigwyddiad, felly cytunodd Adran Iechyd yr Amgylchedd â'r ymgeisydd i ddiwygio'r trydydd digwyddiad i orffen am 11.00pm, lle byddai Swyddogion yn mynd allan ac yn monitro'r lefelau sŵn (yn y digwyddiad hwn).

Derbyniwyd cwynion ar 14 Awst 2021, tra bod Swyddog ar eu ffordd i fonitro'r digwyddiad. Eglurodd cynrychiolydd o Iechyd yr Amgylchedd mai hi hefyd oedd y Swyddog Dyletswydd ar alwad am y penwythnos hwnnw a chafodd ddau alwad gan y cwmni sy'n derbyn y galwadau cychwynnol y tu allan i oriau. Derbyniwyd un alwad am 18.47 a derbyniodd yr alwad arall am 20.26. Cafodd lefel y bas ei monitro ar 14 Awst a chanfuwyd ei bod yn ymwithiol y tu mewn a'r tu allan i eiddo'r achwynydd. Cysylltodd y Swyddog â Mr Holmes i ofyn i lefel y bas gael ei gostwng. Gwnaeth hyn, ond ni wnaeth unrhyw wahaniaeth o ran lefelau sŵn. Yna daeth Mr Holmes i gwrdd â'r Swyddog yn eiddo'r achwynydd a chlywed lefel y bas ei hun. Dywedodd wedyn y byddai'n gwneud addasiadau pellach i lefel y sŵn yn y digwyddiad. Yna bu'n rhaid i'r Swyddog adael i fynd ar alwad arall, ond galwodd yn ôl i K2 Gym am 22.12, gyda hi ei hun i gwrdd â rhywun o'r enw Gavin gan ei fod am gael arweiniad ynghylch pa lefel y gallai chwarae'r gerddoriaeth ynddi. Yna addaswyd y lefel ymhellach lle barnwyd ei bod yn dderbyniol ar safle'r achwynydd a dywedwyd wrth Gavin am y mesur cyfatebol a oedd yn cael ei gymryd yn y digwyddiad ei hun. Fodd bynnag, dywedodd Gavin na fyddent yn gallu cynnal y digwyddiad ar y lefel is hon. Yna trafodwyd lliniaru ar y safle, ond cyflwynodd yr ymgeisydd pedwerydd Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro heb unrhyw fanylion am sut yr oeddent yn mynd i reoli'r lefelau bas. O ganlyniad, gwrthwynebodd GRhR yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro. Yna derbyniwyd e-bost pellach gan yr ymgeisydd ar 19 Awst, gyda rhai'n awgrymu lliniaru yr oeddent yn eu hystyried a gofynnwyd am fwy o fanylion

gan GRhR, ond ni chafwyd unrhyw gyswllt pellach ers hynny, ychwanegodd Swyddog lechyd yr Amgylchedd.

Dywedodd Mr Holmes fod y cais Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro wedi'i gyflwyno cyn y digwyddiad dan sylw a bod y trafodaethau uchod a oedd yn cyfeirio at hynny wedi digwydd gyda Swyddogion o Adran lechyd yr Amgylchedd, wedi dod ar ôl i'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro gael ei gyflwyno. Fodd bynnag, ers hynny, roedd wedi e-bostio Adran lechyd yr Amgylchedd, gyda rhai opsiynau posibl i'w harchwilio gyda'r nod o leihau'r lefelau bas i'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn lefel 'resymol'.

Cydnabu'r Swyddog Amgylcheddol hyn, ond ychwanegodd fod Swyddogion wedi gofyn am fwy o fanylion o hyd ynglŷn â'r lliniaru a argymhellir, ond ni chafwyd dim wedyn gan yr ymgeisydd/ymgeiswyr.

Dywedodd Mr Holmes fod hyn yn wir, ond ychwanegodd nad oedd wedi ateb gan ei fod yn credu y byddai'r rhain yn cael eu trafod a'u cytuno rhwng yr holl bartïon perthnasol, yn y cyfarfod heddiw.

Gofynnodd Mr Gavin Thomas i'r Swyddog, pan oedd wedi cymryd lefelau sŵn mewn digwyddiad Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro blaenorol yn y 'Shack tua 22:00,' ym mha fodd yr oedd ei chydweithiwr yn monitro lefelau sŵn yn eiddo'r achwynydd.

Cadarnhaodd Swyddog lechyd yr Amgylchedd fod ei chydweithiwr wedi lleoli ei hun yng ngardd yr eiddo ac yn dilyn hynny, gostyngodd yr ymgeisydd y lefel bas i lefel resymol a ystyriwyd yn dderbyniol. Roedd swyddogion o'r farn, pe bai hyn yn lefel i'w defnyddio mewn digwyddiadau yn y dyfodol, y byddai hyn yn dderbyniol ac na fyddai'n arwain at unrhyw gwynion o eiddo ger y lleoliad lle'r oedd y digwyddiad yn digwydd.

Cadarnhaodd Mr Thomas wrth yr Aelodau nad oedd y lefelau sŵn wedi'u cofnodi yn eiddo'r achwynydd gyda mesurydd sŵn, a fyddai'n rhoi darlleniad cywir iawn ac a fyddai'n cadarnhau a oedd y lefelau bas a glywir yno o'r digwyddiad yn rhy uchel neu i'r gwrthwyneb, ar lefel dderbyniol.

Cydnabu Swyddog lechyd yr Amgylchedd hyn, ond dywedodd y gellid clywed y lefelau bas yn yr eiddo hwn a chawsant eu dosbarthu gan Swyddogion i fod ar lefel ddigon digonol i achosi niwsans sŵn.

Cadarnhaodd Mr Thomas, mewn e-bost a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn flaenorol, fod y lefelau sŵn a adroddwyd yn K2 Gym yn ystod y digwyddiad Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro diwethaf wedi bod yn 65 – 67 db. Gofynnodd, gyda hyn mewn golwg ac wrth iddi gael ei hystyried yn rhy uchel, beth fyddai lefel dderbyniol yn eiddo'r achwynwyr.

Cadarnhaodd Swyddog lechyd yr Amgylchedd y byddai hyn oddeutu 35 – 36 db. Ychwanegodd fod lefelau priodol yr ystyrir eu bod yn dderbyniol wedi cael eu rhoi i'r ymgeiswyr o'r blaen i fonitro yn y lleoliad lle byddai digwyddiadau o'r fath yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

Dywedodd Mr Thomas mai'r peth olaf yr oedd am ei gael, oedd i bobl h.y. trigolion gerllaw, gael eu tarfu gan sŵn o ganlyniad i unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Teimlai Swyddog lechyd yr Amgylchedd ei bod yn werth sôn wrth Aelodau, fod sŵn o offeryn Bass yn tueddu i deithio'n eithaf pell. Felly, yr unig ffordd y gellid ei gosod ar lefel uwch na'r hyn a argymhellwyd uchod, oedd pe bai mesurau lliniaru pellach yn cael eu rhoi ar waith yn y lleoliad lle'r oedd y digwyddiad yn digwydd. Roedd syniadau ar sut i gyflawni hyn wedi'u trafod o'r blaen gyda'r ymgeisydd/ymgeiswyr, ychwanegodd, a phe

bai'r rhain yn cael eu dilyn, yna byddai Swyddogion yn cynnal gwiriadau/profion pellach ar safle'r digwyddiad ac eiddo'r achwynwyr. Fodd bynnag, nid oedd yr ymgeisydd/ymgeiswyr wedi ymateb i'r cyfathrebu hwn hyd yma.

Cadarnhaodd Mr Holmes nad oedd ef na Mr Thomas wedi ymateb i hyn, gan eu bod wedi bod o dan yr argraff y byddai'r mater hwn ynghyd ag unrhyw rai eraill yn cael eu trafod a'u datrys yng nghyfarfod y Pwyllgor heddiw.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd hyn yn wir a dylid bod wedi trafod materion fel yr uchod y tu allan i'r cyfarfod, gyda'r bwriad o ddod i ateb cyfeillgar i'r ddau barti, cyn i'r ymgeisydd/ymgeiswyr wneud cais am unrhyw Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro yn y dyfodol.

Cytunodd Aelod â hyn ac ychwanegodd na ddylid bod wedi bwrw ymlaen â'r cyfarfod heddiw pe bai'r digwyddiad, fel yr ymddangosai o'r ddadl, yn mynd i gael ei ganslo ac yn cael ei wrthwynebu gan y GRhR, ac y byddai'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro yn cael ei dynnu'n ôl.

Felly, gofynnodd y Swyddog Cyfreithiol i'r ymgeiswyr, a oedd yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro a wnaed cais amdano o ran y digwyddiad a drefnwyd ar gyfer 28 Awst 2021, yn mynd yn ei flaen yn awr.

Cadarnhaodd Mr Holmes y byddai hynny bellach yn annhebygol o ddigwydd, o ystyried sut yr oedd y cyfarfod wedi symud ymlaen heddiw, ond byddai'n cyflwyno ceisiadau am Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro pellach yn y dyfodol.

Atebodd y Swyddog Cyfreithiol, er bod hynny yn ei hawl, nad oedd fawr o ddiben yn y cyfarfod heddiw, pe na bai'r digwyddiad y gwnaed cais amdano yn mynd rhagddo ymhellach.

Cytunodd Mr Holmes ond ychwanegodd y byddai'n dymuno gwneud cais am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro arall yn ystod misoedd Medi a Hydref.

Atebodd y Swyddog Cyfreithiol y byddai'r rhain yn destun cyfarfodydd pellach, fodd bynnag, ar y sail bod gwrthwynebiadau'n cael eu derbyn i geisiadau pellach o'r fath.

Dywedodd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, cyn belled â bod mesurau lliniaru digonol wedi'u rhoi ar waith i leihau'r lefelau sŵn fel y'u disgrifir uchod ac a drafodwyd yn flaenorol gyda'r ymgeisydd, yna ni fyddai gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR) unrhyw wrthwynebiad i ddigwyddiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, pe na bai'r mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith, yna byddai GRhR yn parhau i wrthwynebu'r Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro ac, os oes angen, yn cyflwyno Hysbysiad Lleihau i'r ymgeiswyr.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yr holl ddigwyddiadau blaenorol a oedd yn ymwneud â Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro wedi digwydd yn yr un lleoliad ac a oedd hyn yn debygol o fod yn wir yn y dyfodol.

Cadarnhaodd Mr Howells mai dyna oedd/y byddai hynny'n wir.

Ychwanegodd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ymhellach, y byddai strwythurau fel peli gwair/neu Amsugnwyr Sain yn rhwystro rhai o'r lefelau sain o ddigwyddiadau yn y dyfodol. Os derbyniwyd cadarnhad gan yr ymgeisydd y byddai'r rhain yn cael eu rhoi ar waith, yna gallai staff GRhR archwilio'r rhain cyn y digwyddiad a chanfod a yw'r rhain yn ddigonol i leihau lefelau sŵn fel nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn niwsans i breswylwyr sy'n byw yn y cyffiniau.

O ystyried yr uchod, cytunodd Mr Holmes a Mr Thomas i dynnu'n ôl y cais am yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar gyfer y digwyddiad arfaethedig ar 28 Awst 2021.

PENDERFYNWYD:
wedi'i dynnu'n ôl.

Bod yr Aelodau'n nodi bod pwnc y cais yn yr adroddiad

Daeth y cyfarfod i ben am 11:10